



## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**9 HYDREF 2019**

#### **Y DIWEDDARAF – RHESTR O ENWAU LLEOEDD SAFONOL CYMRU**

#### **ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH GYDA DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. G. HOPKINS**

**AWDUR:** Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 570002)

#### **1. DIBEN YR ADRODDIAD**

- 1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion y Gymraeg am argymhellion newydd Comisiynydd y Gymraeg (Atodiad 1) am [Restr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru](#) a gafodd ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2018.

#### **2. ARGYMHELLION**

Dyma'r argymhellion i aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi sefyllfa bresennol y Cyngor o ran rhestr arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg o Enwau Lleoedd Safonol.
- 2.2 Nodi cynnwys y Rhestr ddiwygiedig o Enwau Lleoedd Cymreig Safonol a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Mehefin 2019.
- 2.3 Cymeradwyo gweithredu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Cymru fel sy'n berthnasol i Riondda Cynon Taf yn rhannol, ac eithrio'r pedwar newid sylweddol sy'n ymwneud â Threorci, Rhydfelen, Llanwynno a Threfforest
- 2.4 Ystyried pa sylwadau, os oes yna rai, sydd ganddyn nhw i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r Rhestr.

#### **3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION**

- 3.1 Nod Comisiynydd y Gymraeg yw sicrhau cysondeb a chywirdeb orthograffig ledled Cymru. Cafodd Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ei chreu i gefnogi hyn.

- 3.2 Serch hynny, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfynu ar y ffurflenni y maen nhw'n eu defnyddio ar gyfer enwau lleoedd yn eu hardal ddaearyddol.
- 3.3 Mae sensitifrwydd cymunedol yn perthyn i enwau lleoedd, ac mae modd i'r hyn sydd wedi'i dderbyn yn lleol fod yn bwysicach na rhesymeg academaidd wrth ystyried newidiadau arfaethedig – yn benodol mewn perthynas â Rhydfelen, Llanwynno a Threorci.

#### **4. CEFNDIR**

- 4.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am roi cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru i unigolion a sefydliadau. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd mabwysiadu ffurfiau safonol ar gyfer trefnau gweinyddu cyhoeddus, arwyddion, mapiau a pheiriannau chwilio ar-lein.
- 4.2 Ysgrifennodd Comisiynydd y Gymraeg at Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ym mis Gorffennaf 2018 gan dynnu sylw at y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru, a gafodd ei chyhoeddi ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Roedd y Comisiynydd wedi nodi y byddai'n dymuno i'r Cyngor fabwysiadu'r rhestr yma.
- 4.3 Cyfarfu Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar 10 Hydref, 2018 lle bu'n ystyried yr argymhellion a gafodd eu gwneud gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â mabwysiadu enwau lleoedd sy'n berthnasol i Rhondda Cynon Taf.
- 4.4 Yn dilyn trafodaeth faith ar y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, penderfynodd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, gyda chytundeb y Cabinet, y byddai Cadeirydd y Grŵp Llywio yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn sefydlu sail resymegol y newidiadau i enwau lleoedd, cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad gyda chymunedau lleol.
- 4.5 Cafodd safbwynt y Cyngor ei esbonio ymhellach wrth swyddogion o garfan Comisiynydd y Gymraeg ar eu hymweliad i Gwm Clydach. Cyfeiriwyd yn benodol at gymhlethdodau ac effaith unrhyw welliannau i enwau lleoedd ar drefnau gweinyddu busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- 4.6 Fe wnaeth gohebiaeth ddilynol gan swyddfa'r Comisiynydd ofyn i'r Cyngor ohirio unrhyw broses ymgynghori. Mae Cadeirydd y Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion Cymraeg wedi ymateb i Gomisiynydd y Gymraeg, gan gytuno y byddai'n annerbyniol symud ymlaen gydag unrhyw ymgynghoriad yn seiliedig ar y rhestr gyhoeddedig ar hyn o bryd.
- 4.7 O ganlyniad, cytunodd Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg i adolygu eu rhestr o enwau lleoedd yn Rhondda Cynon Taf.

## **5. Y SEFYLLFA BRESENNOL**

- 5.1 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddwyd rhestr ddiwygiedig o enwau lleoedd safonol gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n cynnwys peth manylder a rhesymeg ar yr argymhellion er mwyn llywio unrhyw benderfyniad ynghylch ymgynghori â'r cyhoedd neu beidio.
- 5.2 Mae'r rhestr ddiwygiedig yn parhau i fod, yn bennaf, yn gyson â'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol gyfredol ar gyfer RhCT ac mae'n ymddangos ei bod hefyd yn gwneud defnydd o enwau *Cymreig* sydd wedi'u mabwysiadu e.e. mae Comisiynydd y Gymraeg yn argymhell osgoi defnyddio Aberllechau ar gyfer Wattstown neu Ystradyfodwg ar gyfer Ystrad.
- 5.3 Mae llai o newidiadau sylweddol wedi'u cynnwys yn y rhestr ddiwygiedig wreiddiol, y mwyafrif ohonyn nhw'n welliannau gramadegol e.e. defnyddio cysylltnod neu'r fannod bendant 'Y'. Bydd mabwysiadu'r argymhellion yma o fudd ariannol i'r Cyngor o ran arwyddion / maint arwyddion sy'n dod â'r angen am arwyddion dwyieithog fel Y Beddau / Beddau i ben.
- 5.4 Yn arbennig o bwysig o ran eu harwyddocâd, mae Rhydfelen (yn lle Rhydyfelin); Treorci (yn lle Treorchy); Llanwynno (yn lle Llanwono); a Threforest yn lle Treforest ar y rhestr. Mae bosibl bydd y rhain yn llai derbyniol i gymunedau na'r mân newidiadau wedi'u nodi yn 5.3 uchod.

## **6. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

- 6.1 Dyw'r Cyngor ddim yn gyfrifol am gynnal **Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** yn yr achos yma, gan fod y Rhestr o Enwau Lleoedd Cymreig Safonol wedi'i datblygu a'i hargymhell ar gyfer cael ei defnyddio gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

## **7. YMGYNGHORIAD**

- 7.1 Derbyniodd Aelodau Lleol gadarnhad ysgrifenedig o'r newidiadau arfaethedig cychwynnol a chawson nhw eu gwahodd i ymateb er mwyn i'w sylwadau gael eu hystyried.
- 7.2 Ni fydd ymgynghori pellach yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

## **8. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL**

- 8.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma.

## **9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

- 9.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rheoleiddio'r maes gwaith yma.
- 9.2 Felly, pan fydd y Cyngor yn llunio polisi newydd, rhaid rhoi sylw dyledus i sicrhau y byddai unrhyw benderfyniad yn cynyddu effeithiau cadarnhaol ar

gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## **10. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

- 10.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ogystal â Strategaethau mewn perthynas â'r Gymraeg a gafodd eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.
- 10.2 Mae'r pwnc sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad yma yn arbennig o berthnasol i nod rhif chwech o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) – sef Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Ei nod yw sicrhau bod gyda'r Gymraeg statws cyfartal i'r Saesneg yng Nghymru. Ei nod hefyd yw gwarchod treftadaeth Cymru trwy sicrhau bod enwau lleoedd Cymru yn cael eu cadw.

## **11. CASGLIAD**

- 11.1 Cyfarfu Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar 10 Hydref, 2018 i drafod y cyngor a oedd wedi'i roi i Rondda Cynon Taf gan Gomisiynydd y Gymraeg i fabwysiadu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru.
- 11.2 Cafodd adroddiad pellach ei gyflwyno i'r Cabinet a oedd yn gofyn am ganiatâd i ofyn am esboniad ysgrifenedig gan Gomisiynydd y Gymraeg o sail resymegol unrhyw newidiadau arfaethedig i enwau lleoedd unigol cyn i unrhyw ymgynghoriad gael ei gynnal gyda chymunedau lleol.
- 11.3 Yn dilyn gohebiaeth â swyddfa'r Comisiynydd a oedd yn gofyn i'r Cyngor oedi cyn dechrau unrhyw ymgynghoriad, ymatebodd Cadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg gan gytuno na fyddai'n ddoeth bwrw ymlaen ag unrhyw ymgynghoriad ar sail y rhestr sydd wedi'i chyhoeddi ar hyn o bryd.
- 11.4 O ganlyniad, cyfarfu Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg ym mis Mai 2019 ac mae argymhellion pellach wedi'u cyflwyno sy'n gyson, ar y cyfan, gyda'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol gyfredol ar gyfer RhCT a gyda llai o newidiadau sylweddol.